**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024**

Cystadleuaeth 132 – Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed

# Trais a threfn – Iwan Llwyd

Mae trais fel caws llyffant
yn magu'n y corneli llaith,
lle mae'r llygod a'r pry lludw'n
chwalu'n y sbwriel.

a'r tenantiaid yn feunyddiol
yn cwyno wrth y landlord
bod y tŷ'n damp
a'r carthffosydd yn gorlifo
a'r bwyd yn llwydo
a chlefyd a haint yn llifo o'r tapiau
a'r waliau'n pydru
dan flodau'r papur wal:

a daw'r landlord heibio'n
ei siwt a'i wên orau
a rhoi côt o baent ar y papur wal
a sawdl ar y crachod lludw,
a chrafu'r caws llyffant i fwced blastig
a chwyno nad oes grant
i ddadflocio'r garthffos
a bod yn rhaid aros
am ddeunaw mis a rhagor
cyn cael pres gan y cyngor
i ail osod y sylfeini
a llenwi'r bylchau'n y meini
ac os mai o fydd yn gorfod
torchi'i lewys a chymysgu'r sment
yna bydd yn rhaid rhoi
pumpunt a rhagor yr wythnos
ar y rhent

ac mae'r drws yn cau,
a'r caws llyffant
yn magu'n y corneli llaith:

ar y stryd
drwy'r awyr drymaidd
daw sŵn seiren
o gyfeiriad y cae ffwtbol
lle mae'r landlord
yn sipian Bacardi
ym mwth y cyfarwyddwyr
a chyfraith a threfn yn llifo o'i enau
mor rhwydd â rhegfeydd
y cefnogwyr islaw

ac mae trais yn magu'n
y corneli llaith
a'r bobol yn chwalu'n ngweddillion
cartrefi a chymunedau
a chyfraith a threfn yn llifo o enau
gwleidyddion a herwgipiodd
eu gwaith, eu gobaith a'u gweddïau